



Diben y nodyn cyfarwyddyd hwn

Mae'r nodyn hwn yn darparu cyngor ar yr hyn y gellir ei gynnwys yn y diffiniad o "adnoddau" a sut i ddangos adnoddau yn y cynllun. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod paragraff 42 o'r canllawiau statudol yn datgan yn glir bod angen i'r cydgyllun ardal nodi'n glir pa adnoddau a fydd yn cael eu defnyddio i roi'r cynllun ar waith.

Bydd gan bawb eu dulliau mewnol eu hunain o nodi adnoddau, a does dim dwywaith y bydd eich cynlluniau'n adlewyrchu sbectrwm eang o flaenoriaethau a chamau gweithredu. Diben y nodyn hwn yw'ch atgoffa o'r disgwyliadau yn hytrach nag argymell unrhyw broses benodol.

Diffinio adnoddau

Mae'n bwysig osgoi diffinio adnoddau mewn ffordd gul yn nhermau cyllid yn unig. Mae adnoddau eraill yn cynnwys staff, adeiladau, cyfarpar, gwirfoddolwyr a chyfleusterau eraill sy'n cyfrannu at y broses o roi'r cynllun ar waith. Yn unol ag ysbryd y Ddeddf, dylai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, yn ogystal â chymunedau lleol, gael eu hystyried yn adnoddau.

Byddwch yn casglu llawer o wybodaeth am adnoddau na fydd angen ei chynnwys yn eich cynllun cyhoeddedig o reidrwydd. Er y byddwch yn cofnodi'r holl wybodaeth hon at ddibenion cynllunio mewnol, disgwylir i chi ddisgrifio crynodeb o'r adnoddau yng nghorff eich adroddiad. Er enghraifft, nid oes angen i chi gynnwys gwybodaeth fanwl am y gyllideb. Mae angen nodi'r adnoddau gofynnol ar gyfer pob un o'r camau gweithredu a nodwyd yn erbyn eich blaenoriaethau.

Mae'r templed (2.10) yn cynnwys adran lle gallwch ddisgrifio'r wybodaeth sy'n berthnasol i'r cyhoedd a Gweinidogion yn eich barn chi. Gallwch gynnwys rhagor o wybodaeth yn eich Atodiadau os dymunwch.

Cryfderau a dulliau gweithredu seiliedig ar asedau

Cydnabyddir bod rhai adnoddau yn haws i'w nodi nag eraill ac yn haws i'w mynegi yn y cynllun. Er enghraifft, bydd y broses o ddyrannu cyllideb i fenter benodol yn debygol o fod yn glir ac yn bendant, ond bydd y gwaith o fesur sut mae pobl a chymunedau'n gallu cael eu hystyried yn asedau mewn achosion penodol yn fwy o her. Fodd bynnag, bydd angen i chi sicrhau:

- ◆ bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r asedau;
- ◆ bod yr ystyriaeth hon yn cael ei hadlewyrchu yn y cynllun.

Byddwch wedi nodi nifer o'r asedau cymunedol hyn yn eich asesiad o'r boblogaeth a byddwch yn gallu eu hadlewyrchu yn y cynllun hwn, er enghraifft, rhwydweithiau cludiant neu rannu lifft anffurfiol neu allu posibl i wirfoddoli. Cydnabyddir y byddwch chi'n nodi'r adnoddau hyn yn llai eglur ac y gall fod angen gwneud rhagor o waith mapio ar gyfer rhai ohonynt fel rhan o'ch cynllun. Cydnabyddir hefyd nad oedd data a gwybodaeth am asedau unigol ar gael ar gyfer cylch cyntaf yr asesiadau o boblogaeth.

Cwestiynau myfyriol

- ◆ A ydych yn deall beth sydd angen i chi ei gynnwys o dan y pennawd "Adnoddau"?
- ◆ A ydych yn deall faint o wybodaeth sydd angen i chi ei darparu yn eich cynllun?
- ◆ A ydych wedi cofnodi'r adnoddau'n fanylach at ddibenion eich cynlluniau mewnol?
- ◆ A ydych wedi mabwysiadu agwedd eang at y mater hwn, sy'n adlewyrchu dull seiliedig ar asedau yng nghyswllt pobl a chymunedau?



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government